

PRIFFYRDD, CYMRU

2013 Rhif. 55

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (YR U2330, CEFN COCH, LLANFAIR CAEREINION, Y TRALLWNG, POWYS) 2013

Gwnaed 10 Ionawr 2013

Yn dod i rym 18 Ionawr 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Yr U2330, Cefn Coch, Llanfair Caereinion, Y Trallwng, Powys) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Sir Powys;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" (*"the 1990 Act"*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Yr U2330, Cefn Coch, Llanfair Caereinion, Y Trallwng, Powys) 2013" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2012, o dan y cyfeirnod M/2007/0931 ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Priffyrdd Newydd

3. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhannau o briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, a ddangosir â dotwaith ar y plan a adnewyd, ac a fydd yn briffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980 (2), i'w chynnal a'i chadw ar draul y cyhoedd, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drosti.

Priffordd wedi ei Gwella

4. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd wedi ei gwella a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewyd, ac a fydd yn briffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980 (3), i'w chynnal a'i chadw ar draul y cyhoedd, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drosti.

Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau'r Briffordd ac ar gyfer Darparu a Gwella'r Priffyrdd

5. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd yn Atodlen 1–

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

Ymgymrwyr a Darparwyr Statudol

6. Os yn union cyn cau'r rhan o briffordd bydd unrhyw offer ymgymrwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgymrwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd mewn cysylltiad â'r offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y

cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Ionawr 2013

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1980 p.66.
- (3) 1980 p.66.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o Briffordd sydd i'w Chau o dan y Gorchymyn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw'r U2330 yn gyfagos i'w chyffordd â'r C2013, sy'n rhedeg rhwng pwyntiau A a B ar y plan a adneuwyd, y mae yn ei man hiraf yn 98 o fetrau, yn ei man lletaf yn 15 o fetrau ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 745 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r rhannau newydd o Briffordd sydd i'w darparu

i) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd i'r gogledd o briffordd ddiennw'r U2330, sy'n rhedeg rhwng pwyntiau B ac C ar y plan a adneuwyd, y mae yn ei man hiraf yn 120 o fetrau, yn ei man lletaf yn 8.5 metr ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 615 o fetrau sgwâr.

ii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd i'r de o briffordd ddiennw'r U2330, sy'n rhedeg rhwng pwyntiau D ac E ar y plan a adneuwyd, y mae yn ei man hiraf yn 48 o fetrau, yn ei man lletaf yn 15 o fetrau ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 630 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r Briffordd sydd i'w gwella

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw'r U2330, sy'n rhedeg rhwng pwyntiau F ac G ar y plan a adneuwyd, y mae yn ei man hiraf yn 130 o fetrau, yn ei man lletaf yn 7 metr ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 715 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 4

Y Datblygiad

Adeiladu 12 o eneraduron tyrbinau gwynt, lloriau caled ar gyfer craen, traciau mynediad, is-orsaf drydan a mast anemometr ynghyd â gweithrediadau peirianyddol sy'n cynnwys tair phwll benthyg a rhwydwaith ceblau trydan tanddaearol.

PRIFFYRDD, CYMRU

2013 Rhif. 55

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (YR U2330, CEFN COCH, LLANFAIR CAEREINION, Y TRALLWNG, POWYS) 2013

Gwnaed 10 Ionawr 2013

Yn dod i rym 18 Ionawr 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Yr U2330, Cefn Coch, Llanfair Caereinion, Y Trallwng, Powys) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Powys;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr “y plan a adnewyd” (“*the deposited plan*”) yw’r plan sy’n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Yr U2330, Cefn Coch, Llanfair Caereinion, Y Trallwng, Powys) 2013” sy’n dod gyda’r Gorchymyn hwn.

(3) Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau’r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau’r briffordd i alluogi’r datblygiad i gael ei wneud yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2012, o dan y cyfeirnod M/2007/0931 ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn.

Priffyrdd Newydd

3. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhannau o briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn, a ddangosir â dotwaith ar y plan a adnewyd, ac a fydd yn briffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980 (2), i’w chynnal a’i chadw ar draul y cyhoedd, a’r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drosti.

Priffordd wedi ei Gwella

4. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd wedi ei gwella a ddisgrifir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn, a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewyd, ac a fydd yn briffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980 (3), i’w chynnal a’i chadw ar draul y cyhoedd, a’r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drosti.

Darpariaethau sy’n Angenrheidiol neu’n Hwylus cyn Cau’r Briffordd ac ar gyfer Darparu a Gwella’r Priffyrdd

5. Ni chaniateir cau’r rhan o briffordd yn Atodlen 1–

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy’n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau’r rhan o briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu’r priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

Ymgwymerwyr a Darparwyr Statudol

6. Os yn union cyn cau'r rhan o briffordd bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd mewn cysylltiad â'r offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 10 Ionawr 2013

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1980 p.66.
- (3) 1980 p.66.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o Briffordd sydd i'w Chau o dan y Gorchymyn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw'r U2330 yn gyfagos i'w chyffordd â'r C2013, sy'n rhedeg rhwng

pwyntiau A a B ar y plan a adneuwyd, y mae yn ei man hiraf yn 98 o fetrau, yn ei man lletaf yn 15 o fetrau ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 745 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r rhannau newydd o Briffordd sydd i'w darparu

i) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd i'r gogledd o briffordd ddiennw'r U2330, sy'n rhedeg rhwng pwyntiau B ac C ar y plan a adneuwyd, y mae yn ei man hiraf yn 120 o fetrau, yn ei man lletaf yn 8.5 metr ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 615 o fetrau sgwâr.

ii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd i'r de o briffordd ddiennw'r U2330, sy'n rhedeg rhwng pwyntiau D ac E ar y plan a adneuwyd, y mae yn ei man hiraf yn 48 o fetrau, yn ei man lletaf yn 15 o fetrau ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 630 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r Briffordd sydd i'w gwella

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd ddiennw'r U2330, sy'n rhedeg rhwng pwyntiau F ac G ar y plan a adneuwyd, y mae yn ei man hiraf yn 130 o fetrau, yn ei man lletaf yn 7 metr ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 715 o fetrau sgwâr.

ATODLEN 4

Y Datblygiad

Adeiladu 12 o eneraduron tyrbinau gwynt, lloriau caled ar gyfer craen, traciau mynediad, is-orsaf drydan a mast anemometr ynghyd â gweithrediadau peirianyddol sy'n cynnwys tair phwll benthyc a rhwydwaith ceblau trydan tanddaearol.